**Pwyllgor Rhanbarth Y De Orllewin SWWR-05-01(p.11)**

**Dyddiad:** **26 Hydref 2001, 10.00am hyd 13.00pm**
**Lleoliad:** **Dylan Thomas Centre, Abertawe.**
**Title:** **Datblygu Strategaeth ar gyfer Pobl H¥n yng Nghymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot**

Mae’r cyflwyniad hwn yn ystyried agwedd yr awdurdod lleol at y materion allweddol sy’n wynebu pobl h¥n yng Nghymru a chanlyniad trafodaethau gyda’n partneriaid trwy Fforwm Ymgynghori Pobl H¥n Castell-nedd Port Talbot.

Y Prif Broblemau sy’n Wynebu Pobl H¥n yng Nghymru

- **Mynediad i Wasanaethau**
- **Cael eu Hynysu’n Gymdeithasol**
- **Cynnal eu Hannibyniaeth a Chyfyngu ar Effaith Afiechyd**
- **Problemau Ariannol**
- **Gwahaniaethu ar sail Oed**

Sut gallai’r Cynulliad Cenedlaethol a Chyrff Cyhoeddus eraill Hybu a Chefnogi Byw’n Iach a Pharhau’n Fywiog wrth Heneiddio

- Sicrhau bod y strategaeth ar gyfer pobl h¥n yn darparu cydlyniad o ran y strategaethau eraill cenedlaethol cysylltiedig (ee. cynhwysiad cymdeithasol, cynghrair Iechyd) wrth ymateb i faterion sy’n ymwneud â phobl h¥n.

- Mae angen i hyn adlewyrchu gwaith mewn cymunedau lleol a nodi gyda thrigolion lleol yr hyn y mae ei angen arnynt cyn cydweithio i ddatblygu strategaethau lleol. Dylai pob awdurdod lleol ysgogi hyn, a hynny mewn partneriaeth â’r sectorau iechyd, gwirfoddol a busnes.

- Sefydlwyd Fforwm Ymgynghori lleol i Bobl H¥n, sydd yn gysylltiedig â’r ymgyrch Llywodraeth Well ar gyfer Pobl H¥n, i’r diben hwn. Bu gwaith targedu derbyn budd-daliadau yn wardiau mwyaf difreintiedig yr Awdurdod yn elfen allweddol mewn ymgyrchoedd cynhwysiad cymdeithasol lleol.

Pan fo pethau’n mynd o chwith ym mywydau pobl h¥n, pa systemau sy’n angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth?

- Fel athroniaeth sylfaenol dylid cynnig cefnogaeth briodol i ganiatáu i bobl barhau’n annibynnol cyhyd â phosib.

- Mae angen i bobl h¥n a'r rhai sy'n gofalu amdanynt wybod sut mae cael cymorth pan fo angen.

- Fodd bynnag, mae angen ymateb yn gynt i argyfwng megis salwch gofalwr, rhyddhau o'r ysbyty, neu fethiant i ymdopi. Mae datrysiadau traddiadol megis gofal cartref neu ofal preswyl i gyd yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol, ond gallant annog dibyniaeth barhaus yn rhy gynnar. Mae angen asesu gwell gan Dimau Ymateb Brys, gyda mynediad i amrywiaeth o ddulliau ymyrryd tymor byr a hir. Cymeradwywyd Strategaeth leol i adlunio gwasanaethau gofal cymdeithasol, trwy leihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl, datblygu tai gofal ychwanegol, a gweithio tuag at 'brif-ffrydio' cynlluniau peilot ail-alluogi ac ailgartrefu llwyddiannus.

- Mae Cynlluniau Gofal ac Atgyweirio, cynlluniau rhyddhau o'r Ysbyty, cynlluniau cyfeillgarwch, canolfannau dydd a chlybiau cymdeithasol i gyd yn darparu cefnogaeth barhaus i annog pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

-

<u>Ble, yn eich barn chi, y mae bylchau neu ffaeleddau yn y systemau a'r trefniadau presennol o ran y gefnogaeth a ddarperir i bobl h¥n?</u>

- Cydlynu gwasanaethau

- Argaeledd gwasanaethau atal a chefnogaeth ee. adfocatiaeth, cyfeillgarwch, cyngor ar fyw'n iach, cysylltiadau ag ymagwedd atal gorfforaethol ehangach

- Timau ymyrraeth ymateb brys / Ail-alluogi, a all ddarparu cefnogaeth ddwys yn y tymor byr

- Cludiant - yn arbennig cynlluniau cludiant cymunedol fforddadwy lle ceir cerbydau addas ar gyfer cadeiriau olwyn

<u>Pa welliannau y gellir eu gwneud i ddull y llywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, o ymateb i anghenion pobl h¥n a gweithio gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau?</u>

- Ymagwedd gyfannol trwy Strategaeth Pobl H¥n i Gymru sy'n cyfuno'r ystod angenrheidiol o ymgyrchoedd/ymatebion eraill gan lywodraeth leol a gwasanaethau iechyd.

- Cynnig mwy o fuddsoddi ac arian pendant tymor hir i'r sector gwirfoddol, ynghyd â safonau ansawdd cytunedig.

- Datrys materion ariannu darparwyr gofal nyrsio a phreswyl preifat i alluogi pwrcaswyr lleol i

gomisiynu gwasanaethau o safon.

- Buddsoddi mewn Gofal Cyfamserol a darparu gwasanaethau sy'n cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth tymor hir.

- Ymgyrchoedd ar gyfer pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig/cymoedd lle mae llawer o'r problemau yn sgîl ynysu cymdeithasol yn cael eu dwysáu, a lle nad yw modelau'r dref neu'r ddinas bob amser yn briodol.

- Cyfleoedd i annog a rhannu arfer dda ymhellach trwy ddatblygu Fforymau rhanbarthol yn Ne Cymru ar, ee. ailgartrefu; tai gofal ychwanegol.